Y Fframwaith hunan-adolygu

Elfen 7 (Canllawiau)

Adnoddau

Mae'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu yn cynnwys yr holl ddatganiadau y byddwch yn barnu eich ysgol yn eu herbyn ar gyfer Elfen 7. Mae hefyd yn cynnwys cwestiynau ac yn awgrymu ffynonellau o dystiolaeth y gallwch eu hystyried fel cefnogaeth i'ch barnau. Mae fersiwn arall o'r ddogfen hon ar gael ar ffurf ffeil Word, lle mae'r adran gwestiynau wedi ei gyfnewid am ffrâm destun ar gyfer cofnodi eich tystiolaeth eich hunan. Efallai yr hoffech ddefnyddio'r ddogfen honno cyn bwydo'r wybodaeth i mewn i'r system ar-lein, ond mae'n hanfodol eich bod yn cwblhau'r hunan-adolygiad ar-lein cyn gwneud cais i gael eich asesu ar gyfer y Marc TGCh.

Gellir defnyddio'r canllaw yma i'r fframwaith hunan-adolygu ochr yn ochr â'r disgrifiadau lefel yn Elfen 7 gan Becta i'ch helpu i wneud penderfyniad ynglŷn â'ch sefyllfa yn natblygiad TGCh ar gyfer yr elfen 'Adnoddau'.

Mae Becta yn argymell yn gryf y dylech ddefnyddio'r offer hunan-adolygu ar-lein yn hytrach na'r fersiwn papur.

Elfen 7 - Adnoddau

7a Darpariaeth

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â darpariaeth, rheolaeth a chefnogaeth adnoddau TGCh a ddefnyddir o fewn yr ysgol. Mae'n ystyried yr amgylchedd corfforol lle defnyddir TGCh, sut mae'r defnydd o ofod, cynllun, dodrefn, lle eistedd, goleuo ac awyru yn effeithio dysgu ac addysgu. Mae'r llinyn hefyd yn ystyried ansawdd, cynaladwyedd a digonolrwydd adnoddau TGCh, yn cynnwys adnoddau dysgu digidol. Mae'n bwysig deall nad oes unrhyw fesur llwyr ar ddigonolrwydd – mae angen i chi benderfynu beth yr ydych am wneud gyda TGCh, gan ystyried eich gweledigaeth ar gyfer TGCh ac yna sicrhau fod gennych yr adnoddau priodol i gyflawni hyn. Mae'r pwyslais nid ar yr amgylched ac adnoddau eu hunain, ond ar eu heffaith ar ansawdd ac amrywiaeth y cyfleoedd dysgu ac addysgu ac anghenion trefniadaeth yr ysgol. Mae'r elfen hon yn adnabod fod ysgolion effeithiol yn ymgyrraedd at ddiwylliant o ddysgu sy'n cael ei wella gan argaeledd adnoddau TGCh cynaliadwy, dibynnol a chydlynol. Wrth adnoddau, golygwn galedwedd, yn cynnwys gweinyddwyr rhwydwaith ac offer cefndirol/ rhwydwaith mewnol, a meddalwedd, yn cynnwys Systemau Rheoli Gwybodaeth (SRhG) yn ogystal â rhaglenni a chymwysiadau y mae'r disgyblion yn eu defnyddio.

7a-1 Amgylchedd ffisegol		⇨ cynnydd ⇨					
Wrth greu ac addasu neu ail-drefnu ein hamgylchedd dysgu ac addysgu i adlewyrchu defnydd o TGCh ...		**5**	**4**	**3**	**2**	**1**	
mae'r ystyriaeth i gynllunio wedi bod yn	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol
mae'r nifer o fylchau sydd ynghlwm wedi bod yn	ddim	☐	☐	☐	☐	☐	yn gyfan gwbl
mae'r effaith ar ymdriniaeth i ddysgu ac addysgu wedi bod yn	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol
mae'r cyswllt rhwng cynllunio a gweledigaeth yr ysgol ar gyfer TGCh yn	aneglur	☐	☐	☐	☐	☐	yn amlwg iawn

Canllawiau / Cwestiynau

- Pa effaith mae amgylchedd corfforol yn ei gael ar ansawdd addysgu pan fo disgyblion yn defnyddio TGCh?
- I ba raddau y mae gofod wedi ei greu neu ei addasu i alluogi TGCh i gael effaith gwirioneddol ar ddysgu ac addysgu?
- Ydy'r gofod addysgu yn cefnogi amrywiaeth o arddulliau addysgu wrth ddefnyddio TGCh?
- Pa mor hyblyg y mae'r gofodau dysgu ac addysgu lle defnyddir TGCh?

7a-2 Digonolrwydd ac addasrwydd adnoddau		⇨ cynnydd ⇨					
Mae adnoddau TGCh ein hysgol ...		**5**	**4**	**3**	**2**	**1**	
yn ddigonol mewn swm ac ansawdd i gwrdd	ag ychydig anghenion	☐	☐	☐	☐	☐	â'r holl anghenion
o amrywiaeth sy'n	gyfyngedig	☐	☐	☐	☐	☐	eang
yn ar gael yn rhwydd pan fo angen	anfynych	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
ag effaith ar addysgu sy'n	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol
ag effaith ar ddysgu sy'n	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol
ag effaith ar drefniadaeth ysgol sy'n	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol

Canllawiau / Cwestiynau

- Oes yna ddigon o adnoddau TGCh i gwrdd ag anghenion yr ysgol a'r unigolyn?
- Ydy amrywiaeth yr adnoddau yn briodol ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm yn effeithiol?
- Ydy'r adnoddau'n addas i gwrdd ag anghenion yr ysgol a'r unigolyn?
- Pa ydy effaith adnoddau TGCh ar addysgu?
- Pa effaith mae'r argaeledd mynediad at TGCh yn ei gael ar ddysgu a gweinyddiaeth yr ysgol?
- I ba raddau mae TGCh wedi newid diwylliant dysgu ac addysgu yn yr ysgol?

Elfen 7 - Adnoddau
7a Darpariaeth

7a-3 Adnoddau dysgu digidol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae ein hadnoddau dysgu digidol ...		5	4	3	2	1	
o amrywiaeth sy'n	gyfyngedig	☐	☐	☐	☐	☐	helaeth
yn cwrdd ag anghenion disgyblion	yn anaml	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
yn cael eu defnyddio	yn anaml	☐	☐	☐	☐	☐	yn aml
yn cael eu defnyddio'n ddychmygus	yn anaml	☐	☐	☐	☐	☐	yn aml
yn effeithio ar ddysgu ac addysgu yn	minimal	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol
yn newid y diwylliant dysgu	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	o fewn a thu hwnt i'r ysgol

Canllawiau / Cwestiynau

- Oes yna amrywiaeth priodol o adnoddau addysgu digidol i gefnogi dysgu TGCh a'r defnydd TGCh i gefnogi addysgu mewn pynciau eraill?
- Ym mha ffordd mae'r adnoddau hyn yn gwneud cyfraniad sylweddol i ddysgu ac addysgu?
- Pa mor dda mae'r ysgol wedi cynllunio i gaffael adnoddau addysgu digidol?
- I ba raddau mae'r defnydd o adnoddau addysgu digidol wedi newid diwylliant addysgu o fewn yr ysgol?

Tystiolaeth:
Arolygon o gymhwysiad TGCh ar draws yr ysgol ac o fewn meysydd pynciol unigol neu adrannau. Arolygon o adnoddau ar gyfer TGCh ar draws yr ysgol ac o fewn meysydd pynciol unigol neu adrannau. Polisïau ysgol ar ddysgu ac addysgu a'r defnydd o adnoddau. Polisïau ac arferion yr ysgol ar y defnydd o TGCh i gefnogi rheolaeth a threfniadaeth ysgol. Cynllunio cwricwlwm sy'n ystyried TGCh a mynediad at adnoddau addysgol digidol. Tystiolaeth gan athrawon a disgyblion ar effaith TGCh ac adnoddau dysgu digidol ar ddysgu ac addysgu. Arsylliad gwers. Cofnodion cyfarfodydd llywodraethwyr.

Elfen 7 - Adnoddau

7b Mynediad

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r pha mor rhwydd y gall athrawon a disgyblion gael mynediad at adnoddau TGCh a'r amrywiaeth lleoliadau sy'n darparu mynediad. Mae mynediad yn y cyd-destun hwn yn ymwneud ag adnoddau cwricwlaidd a gweinyddol ac, wrth adolygu safle'r ysgol, bydd angen cymryd i ystyriaeth y ffordd y mae disgyblion a staff yn gallu cael mynediad at TGCh. Bydd angen i drefniadau ar gyfer mynediad o amrywiaeth o leoliadau o fewn a thu hwnt i'r ysgol gael eu hystyried. Mae'r llinyn hefyd yn cynnwys mynediad at y rhyngrwyd ac ehangder y mae lled y band yn cwrdd ag anghenion yr ysgol. Dylid ystyried hefyd amrywiaeth y cyfleusterau sy'n gynhenid mewn mynediad i'r rhyngrwyd, yn cynnwys diogelu rhag firws, hidlo diogelwch data. Fel mae'r ysgol yn datblygu ei defnydd o TGCh, bydd angen adolygu rheolaidd ar y trefniadau ar gyfer mynediad staff a disgyblion a digonolrwydd mynediad i'r rhyngrwyd.

Hefyd, cynhwysir effeithiolrwydd cefnogaeth dechnegol yn y llinyn hwn. Mae mesur digonolrwydd cefnogaeth dechnegol bob amser yn anodd ond yma awgrymir y dylai fod tarfu lleiaf posib i ddysgu a achosir gan broblemau technegol. Nid yw hynny'n dweud na fydd byth nam ar system neu fod systemau TGCh yr ysgol bob amser yn llawn weithredol gant y cant o'r amser, pa mor ddymunol bynnag fyddai hynny. Beth sy'n bwysig ydy fod yr ysgol yn lleihau system yn methu drwy fod yn rhagweithiol mewn cefnogaeth a chynnal a chadw technegol a bod gan athrawon ddigon o adnoddau i allu dygymod pan effeithir ar ddysgu cynlluniedig gan broblemau technegol bychain. Dydy'r llinyn hwn ddim yn awgrymu fod angen technegydd llawn amser ar bob ysgol ac, i nifer o ysgolion bach, byddai hynny'n amhriodol. Mae pob ysgol angen mynediad at ryw fach o gefnogaeth dechnegol ac ni ddylai mesur ei effeithiolrwydd fod ar y ffordd y trefnir ef, ond ar ba mor effeithiol ydy'r trefniadau mewn lleihau tarfu ar ddysgu ac addysgu.

7b-1 TGCh yn cefnogi arferion gweithio effeithiol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae ein hadnoddau TGCh yn ein galluogi i weithio'n effeithiol ...		**5**	**4**	**3**	**2**	**1**	
o fewn y cwricwlwm mewn	ychydig fannau yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐	nifer o fannau o fewn a thu hwnt i'r ysgol
o fewn gweinyddiaeth mewn	ychydig fannau yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐	nifer o fannau o fewn a thu hwnt i'r ysgol
ac maent yn ddibynadwy	yn anaml	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
yn defnyddio cysylltedd sydd	bob amser yn araf	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser yn gyflym
ac yn effeithio ar ddysgu ac addysgu yn	ddibwys	☐	☐	☐	☐	☐	arwyddocaol

Canllawiau / Cwestiynau

- Ydy mynediad at gwricwlwm wedi ei rwydweithio ac adnoddau gweinyddol ar gael o amrywiaeth o leoliadau o fewn yr ysgol?
- Pa mor hawdd ydy hi i athrawon a disgyblion gael mynediad at yr adnoddau sydd arnynt eu hangen mewn lleoliadau priodol?
- dy mynediad at adnoddau a gwybodaeth ysgol ar gael o leoliadau tu hwnt i'r ysgol - er enghraifft yng nghartrefi athrawon a disgyblion, tra ar dripiau gwaith maes a.y.y.b?
- Sut y sicrheir ac y darperir mynediad priodol i wasanaethau'r rhyngrwyd i gwrdd â'r gofynion a wneir gan yr ysgol?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod disgyblion yn ddiogel tra byddant yn defnyddio adnoddau rhwydweithiol (rhyngrwyd, e-bost, offer rheoli a.y.y.b.)?
- Sut mae'r ysgol yn sicrhau fod systemau yn cael eu gwarchod rhag firysau, fod data yn ddiogel a bod y system yn dechnolegol gadarn a dibynnol?
- Pa weithdrefnau sydd mewn llaw i sicrhau fod darpariaeth yn cael ei chadw'n gyfredol ac yn parhau i gwrdd â'r gofynion a wneir arni gan yr ysgol?

Elfen 7 - Adnoddau
7b Mynediad

7b-2 Cefnogaeth dechnegol		⇨ cynnydd ⇨					
Mae ein cefnogaeth dechnegol ...		5	4	3	2	1	
ar gael	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob tro fo'i angen
yn defnyddio staff sydd fel arfer	heb eu hyfforddi	☐	☐	☐	☐	☐	yn arbenigol
yn cydbwyso cefnogaeth ragweithiol ac adweithiol	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
yn rhwystro tarfu ar ddysgu ac addysgu gyda TGCh	yn anaml	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
yn cael ei reoli'n	aneffeithiol	☐	☐	☐	☐	☐	effeithiol iawn
yn cael ei fonitro ar gyfer ei berfformiad	byth	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd

Canllawiau / Cwestiynau

- Pa drefniadau mae'r ysgol wedi eu gwneud ar gyfer cymorth technegol amserol ac effeithiol?
- Oes yna fynediad amserol i staff arbenigol pan gyfyd problemau technegol?
- Pa gamau a gymerwyd i ddarparu system gynnal a chadw rhagweithiol i leihau'r siawns o fethiant y system?
- Oes systemau wrth gefn wedi eu sefydlu rhag ofn y byddai methiant enfawr i'r system?
- Sut mae'r ysgol yn lleihau amhariad ar addysgu, dysgu a gweinyddu a achosir gan broblemau technegol?
- Sut mae cefnogaeth dechnolegol yn cael ei fonitro a'i reoli'n effeithiol?

Tystiolaeth:
Polisi'r ysgol ar gefnogaeth dechnegol. Arolygon athrawon am ba mor hyderus y maent od systemau'n gweithio'n effeithiol pan font eu hangen. Arolygon athrawon i bennu a oes ganddyn nhw fynediad i gefnogaeth dechnegol pan aiff pethau o chwith. Logiau technegol o'r amser a gymerwyd i ddatrys problemau technegol. Disgrifiadau swydd technegwyr a rheolwyr system. Tystiolaeth gan uwch reolwyr sy'n gyfrifol am gefnogaeth system. Cynllun adfer trychineb. Polisïau defnydd derbyniol. Polisïau e-ddiogelwch. Amserlennu adnoddau Polisi mynediad tu allan(fas) i'r ysgol. Cytundeb gwasanaeth ar gyfer gwasanaeth dan arweiniad.

Elfen 7 - Adnoddau

7c Rheolaeth

Mae'r llinyn hwn yn ymwneud â'r ffordd y mae'r ysgol yn caffael ei hadnoddau TGCh rwy ddadansoddiad effeithiol o anghenion cwricwlwm a threfniadaeth, cynllunio ar gyfer y dyfodol, yn cynnwys cynaladwyedd ariannol ac amgylcheddol, ac yn defnyddio arfer caffael arferion gorau. Bydd gan ysgol dda olwg clir ar ba mor effeithiol ydy ei hadnoddau TGCh presennol i gwrdd ag anghenion dysgu ac addysgu a bydd yno drefniadau wedi eu sefydlu i adnabod blaenoriaethau ar gyfer datblygiadau'r dyfodol gyda TGCh. Bydd yno strategaeth glir ar gyfer datblygu dysgu ac addysgu yn defnyddio TGCh a fydd yn galluogi adnabod yr adnoddau allweddol y bydd angen eu cael.

Mae angen i ysgolion gael dealltwriaeth dda o gyfanswm cost perchnogaeth o offer a gwasanaethau a dylent allu adnabod gwerth gorau am arian yn nhermau gwelliannau i ddysgu ac addysgu. Dylai fod ganddynt bolisi clir ar gaffaeliad a gwneud defnydd o arfer gorau cytundebau caffael sydd ar gael ar hyn o bryd gan Becta. Gall fod gan Awdurdodau Lleol eu canllawiau eu hunain ar gaffaeliad, yn arbennig lle mae'r rhain yn berthnasol i lefelau uchel o wariant. Mae'r llinyn yn pwysleisio fod angen i gaffaeliad fod wedi ei gynllunio'n dda ac yn perthyn yn agos i strategaeth TGCh yr ysgol yn ogystal ag i anghenion y cwricwlwm, pwnc neu adran.

Mae'r llinyn hefyd yn ymwneud gyda monitro defnydd, gwerthusiad ac effeithiolrwydd adnoddau TGCh ar draws yr ysgol, a hebddynt byddai cynllunio'r dyfodol yn amhosib.

7c-1 Caffael		⇨ cynnydd ⇨					
Mae caffael ein hadnoddau TGCh yn ...		**5**	**4**	**3**	**2**	**1**	
rhan o'n cynllunio strategol	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
cwrdd anghenion cyfredol a'r dyfodol	yn rhannol	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
cymryd ystyriaeth o gyfanswm cost perchnogaeth a gwerth am arian	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
yn cwrdd canllawiau ymarfer da	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
cael ei gyflawni i sicrhau cynaladwyedd	dim o gwbl	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser

Canllawiau / Cwestiynau

- Sut mae'r ysgol yn cynllunio ar gyfer caffael TGCh?
- Ydy caffaeliad yn cyd-fynd ag amcanion strategol awdurdod lleol neu Consortiwm Band llydan Rhanbarthol (RBC) ar gyfer TGCh?
- Pa feini prawf, yn cynnwys meini prawf technegol, sydd wedi eu seilio ar dystiolaeth o ddefnydd effeithiol ac/neu anghenion cwricwlwm clir a ddefnyddir ar gyfer caffael adnoddau newydd?
- Ydy'r ysgol yn deall materion perthynol i gyfanswm cost perchnogaeth?
- Sut mae caffaeliad yn cael ei weithredu i gyd-fynd gydag ymarfer gorau?
- Ydy caffaeliad yn cyd-fynd gydag amcanion strategol yr ysgol ac ar gyfer TGCh?
- Sut mae'r yn ceisio sicrhau gwerth am arian yn gyfredol ac yn perthnasu gwariant i welliannau mewn dysgu ac addysgu?

Elfen 7 - Adnoddau
7c Rheolaeth

7c-2 Arfarniad adnoddau TGCh		⇨ cynnydd ⇨					
Mae arfarniad ein hadnoddau TGCh yn ...		**5**	**4**	**3**	**2**	**1**	
digwydd	byth	☐	☐	☐	☐	☐	yn rheolaidd
yn digwydd mewn ffordd sydd	heb ei gynllunio	☐	☐	☐	☐	☐	yn systematig
cynnwys mynediad, priodoldeb, ansawdd digonol	yn annigonol	☐	☐	☐	☐	☐	yn llawn
canolbwyntio ar ddefnydd	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
cyfrannu at gaffaeliad y dyfodol	byth	☐	☐	☐	☐	☐	bob amser
ymdrin â defnydd	dim ond yn yr ysgol	☐	☐	☐	☐	☐	yn a thu hwnt i'r ysgol

Canllawiau / Cwestiynau

- Pa mor effeithiol ydy prosesau gwerthuso'r ysgol?
- I ba raddau mae gwerthuso yn dylanwadu ar gynllunio'r dyfodol a chaffaeliad adnoddau TGCh?
- Sut mae'r gwerthusiad yn mynd tu hwnt i gyfri cyfarpar a nodi trefniadau mynediad fel ei fod yn ystyried effaith ar ddysgu ac addysgu?
- Ydy gwerthuso yn agwedd glir o ymdriniaeth yr ysgol i gaffaeliad?

Tystionlaeth:
Strategaethau'r ysgol ar gyfer caffaeliad a rheolaeth ariannol. Polisi TGCh yr ysgol. Polisïau pwnc/ adran ar gyfer caffael adnoddau. Y defnydd penodol a gwirioneddol o'r defnydd o ganllawiau ymarfer da ar gyfer caffael. Polisïau mewn llaw i sicrhau gwerth da am arian. Tystiolaeth o ymwybyddiaeth o reolwyr a staff eraill o gyfanswm costau materion perchnogaeth. Gwerthusiadau adnoddau TGCh blaenorol a monitro eu defnydd a'u heffeithiolrwydd. Cynlluniau cyllido a monitro. Cynllun gwella ysgol. Cynlluniau cynaladwyedd, ariannol ac amgylcheddol.